**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

**YMDDIRIEDOLAETH CADWRAETH ADEILADAU CADWGAN**

**Mawrth 28 Tachwedd 2023**

**Yn bresennol:** Aelodau 17
Procsi wedi ei ddatgan - 1
Arsylwyr – 4

**Ymddiehuriadau:** Aelodau Catrin Myles, Sue Edwards, Roger Geraint Thomas, Clive Davies

**Cylchrhediad:** Ymddiriedolwyr Cadwgan, Joff Timms

**Cychwynodd y Cyfarfod am 17.30yp.**

**Croeso gan Gadeirydd Cadwgan – Non Davies**

Gwiriodd y Cadeirydd bod yr offer cyfieithu yn gweithio gan ddiolch i'r Cyfieithydd am ddarparu'r gwasanaeth i'r cyfarfod. Croesawodd aelodau,staff,gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a chyn -ymddireidolwyr, a rhai gyda pherthynas arbennig gyda'r Ymddiriedolaeth.

Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad gan adolygu cyfnod a phennod arall yn hanes y Castell. 'Mae'r Castell wedi profi sawl cyfnod, rhai hapus, rhai llai felly ond mae wedi elwa o angerdd rhannwyd gan unigolion sy'n gwerthfawrogi y Castell, ers dyddiau yr Arglwydd Rhys, drwy'r cyfnodau lle bu trigolion yn byw yma, ac yn ddiweddar yr unigolion hynny sydd wedi gweithio mor galed i sefydlu Ymddiriedolaeth Cadwgan a goruchwylio adferiad y safle.

Ers ail-agor drysau'r Castell ac adfywio'r diddordeb mae wedi ymelwa o waith di-flino gwirfoddolwyr a staff sydd wedi sicrhau bod y Castell yn dal yma ac yn dal i gynnig buddianau i'r gymuned a phresenoldeb hanesyddol o bwys. Un o'r bobl hynny sy'n haeddu ei enwi yn benodol yw Jonathan Thomas. Ry'n ni'n ffodus iawn heno i gael nid un cyfarwyddwr yn gwmni ond cyn-gyfarwydder Sue Lewis a darpar-gyfarwyddwr i'r dyfodol.

Mae'n gyfle heno i ddiolch i Jonathan am ei holl waith wrth iddo adael y Castell i ddychwelyd i gyflogaeth ei gyn-gyflogwr Kinetic. Er ein bod yn drist iawn i weld ei gyfnod yn y Castell yn dirwyn i ben, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch iddo. Dwi'n siwr ei fod yn dychwelyd atynt gyda set o sgiliau newydd – fel trefnydd priodasau a glanhäwr sy'n glanhau'n gyflym ar y naw! i fod yn ddifrifol mi lwyddodd Jonathan i lywio'r Castell a'r Ymddiriedolaeth drwy gyfnod anodd a thymhestlog, wrth iddo orfod delio 'da phandemig Covid 19, pan fu'n rhaid cau'r safle am gryn gyfnod.Yn ystod y cyfnod hynny fe lwyddodd i

gyflwyno mentrau newydd i’r Castell, adnewyddwyd y pafiliwn, cyflwynwyd arddangosfeydd rhyngweithiol i blant gyda chymeriadau newydd, sefydlwyd golchdy newydd a datblygiad cyffrous yr Ystafell Ddianc. Cyflwynwyd rhain tra’n dal i gynnig ystod o ddigwyddiadau i’r gymuned. Mae’r digwyddiadau yma yn bwysig iawn i’r ymddiriedolwyr gan eu bod yn denu ac yn croesawu bobl newydd i’r Castell.
Mae’n destament i’w gyfraniad bod cymaint o bobl dros yr wythnosau diweddar wedi datgan eu gwerthfawrogiad a'u diolch iddo am eu waith, a mynegu tristwch ei fod yn ein gadael. Mae hyn yn adlewyrchu y parch sydd gan y gymuned leol tuag at Jonathan a’i waith.

Rydym yn ddiolchgar iawn iti Jonathan am dy holl waith ac yn dymuno yn dda iti, ac yn hynod o bles dy fod wedi ymuno â ni heno i gyflwyno adrdoddiad y Cyfarwyddwr. Rydym yn symud nawr i bennod newydd i’r Castell, ac rydym yn falch iawn i groesawu ein Cyfarwyddwr newydd, sydd wedi ei benodi yn ddiweddar, Meirion Davies, fel olynydd i Jonathan. Mae Meirion hefyd yn hannu’n lleol ac mi fydd yn ymuno â ni ar y 4ydd o Ragfyr.

Croeso Meirion – a dwi’n siwr bydd e’n hapus i gael sgwrs wedi’r cyfarfod. Rydym yn dymuno’n dda iti ac i weithio gyda ti i hwyluso cynlluniau cyffrous, yn arbennig o safbwynt y gymuned, yn ddiwylliannol ac o safbwynt treftadaeth.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i ddiolch i staff y Castell, ry’n ni mor lwcus i gael criw bach o staff mor effeithiol. Mae nhw bob amser yn barod i addasu ag ymateb i sialensau newydd. Diolch hefyd i’n holl wirfoddolwyr, mae eu cyfraniad yn eithriadol bwysig, boed hynny’n y gerddi, yr archif a’r ystafell ymchwil, neu fel criw blaen tŷ yn ein digwyddiadau. Hoffwn hefyd ddiolch i’r ymddiriedolwyr sydd o nghwmpas am eu hamser a’u cefnogaeth di-flino er budd y Castell.

Fel nodais , rydym yn edrych ar bennod newydd yn hanes y Castell ble bydd ffocws yr Ymddiriedolaeth ar sicrhau cynhaliaeth i’r sylfeini a parhau i gefnogi y Castell i’w gadw ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Mae’n bwysig ein bod yn parhau i weithio i greu cyfleoedd newydd a sicrhau bod y safle unigryw hwn yn cynnig budd i’r gymuned leol, pobl Aberteifi a’r ardal ehangach. Nid yn unig o safbwynt economaidd  ond o rhan meddwlgarwch, a bod pobl Aberteifi yn dal y Castell fel eu Castell nhw.

Hoffwn ddiolch i chi gyd am eich presenoldeb yma heno, ac erfyniaf arnoch chi i ddal ati i gefnogi a chynorthwyo’r Castell, ac i rannu ymysg eraill yn y gymuned y sylw teg mae’r Castell yn ei haeddu.

Mi awn ymlaen yn awr i edrych ar gofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blynyddol o llynedd a gynhaliwyd ar y 29ain o Dachwedd yma yn ystafell y Tŵr.  Dylech chi gyd fod wedi derbyn copi. Ga’i holi os ydyn nhw yn gofnod gwir a chywir?

**1.0 I gymeradywo cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gynhaliwyd ar 29ain o Dachwedd 2022.**

1.1 Mae ffurflenni procsi yn cael eu gyrru at bawb o’r aelodau cyn y cyfarfod. Derbyniwyd un yn ôl.

1.2 Derbyniwyd bod cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022 yn gofnod gwir a chywir.

**Cynigwyd gan:** Joff Timms

**Eiliwyd gan:** Arwyn Reed

**Roedd y 15 aelod oedd yn medru pleidleisio yn cytuno**.

Ni godwyd unrhyw fusnes o'r materion drafodwyd yn y cyfarfod, ac ni dderbyniwyd unrhyw ymholiad na chwestiwn arall gan bawb oedd yn bresennol.

**2.0 I adrodd ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn ac i gymeradwyo Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at Mawrth 2023.**

2.1 Mae Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfrifon tan Mawrth 2023 wedi eu rhannu ar wefan Castell Aberteifi, ac fe rannwyd copiau electronig gyda'r aelodau cyn y cyfarfod hwn.

2.2 Cyflwynodd Jonathan Thomas adroddiad yr Ymddiriedolwyr gan roi crynodeb o'r cyfnod adrodd yn ôl a'r gweithgaredd ers Mawrth 2023.

'Ma niferoedd ymwelwyr i'r Castell yn dal i ddangos twf bychan yn 2022/23, o'i cymharu gyda ffigyrau 2021/22 ymelwodd o'r cyfnod ôl-Covid a'r tuedd i gymryd 'staycation'. Ar yr un cyfnod, mae ymwneud cymunedol gyda'r Castell wedi cynyddu yn sylweddol, gan gynnwys digwyddiadau oedd wedi eu cynllunio i fod ag apêl eang i bob oedran. Mae'r tueddiad yma wedi parhau i 2023/24 gyda ugain o ddigwyddiadau llai wedi eu cynnal yn ystod saith mis cynta'r flwyddyn ariannol, yn ogystal â chyngherddau a pherfformiadau mawr yr haf.

Mae nifer o grwpiau lleol yn defnyddio'r Castell fel eu man cyfarfod, gan gynnwys dosbarthiadau Dysgu Cymraeg,y grwp archif, Cymdeithas Hanes Teuluol Dyfed, Côr Only Boys Aloud a chriw barddoni lleol dan arweiniad y Prifardd Ceri Wyn Jones.

Mae'r Castell yn dal i ymestyn ei berthynas treftadol a diwylliannol gyda chyrff eraill yng Nghymru. Mae'r ystafell Ymchwil ac Archif dan ofalaeth y tîm gwirfoddol yn dal i fynd o nerth i nerth ac yn ddiweddar llwyfannwyd eu harddangosfa gyntaf ar 'Hanes Stryd Fawr Aberteifi', a bu i Glen Johnson gyflwyno darlith ar y pwnc. O safbwynt treftadaeth un o'r datblygiadau mwya cyffrous oedd yr astudiaeth geoffisegol wnaed o diroedd y Castell - am y tro cyntaf erioed, ac roedd yn cynnig mewnwelediad i'r safle o dan y tir. Canlyniad hyn oedd mwy o ddirgelwch o bosib , ond canfyddwyd nifer o elfennau cyffrous yn ogystal. Yn yr ardd tu cefn i'r Tŵr darganfyddwyd bod y Castell dipyn yn fwy o faint o ran safle na feddyliwyd ynghynt. Daethpwyd o hyd yn ogystal i gysgod siap petryal lle tybiwyd taw dyma safle Neuadd Fawr yr Arglwydd Rhys, ond mae angen gwneud mwy o waith ar hyn.

Cafodd Covid 19 effaith andwyol ar y gallu i gynnig teithiau o gwmpas y Castell yn y blynyddoedd diweddar , gan eu bod yn tramgwyddo'r amodau Covid; ond, yn ystod y cyfnod fe hyfforddwyd tîm newydd o dywyswyr ar gyfer tymor 2023 ac mae teithiau yn awr yn bosib i'w cynnig yn ddyddiol rhwng dydd llun a gwener, tair neu bedair gwaith yr wythnos

Mae partneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth wedi gosod Castell Aberteifi ar y blaen o rhan cynnig darpariaeth o gyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion. Unwaith eto effeithiwyd y darpariaeth yma yn fawr gan y pandemig, ond maent wedi dychwelyd yn gryf. Cynhelir nifer o weithgareddau yn Nhŷ Cadwgan ar draws y flwyddyn wedi'r cyfnod tawel yma, mae rhain yn cynnwys Gwasanaeth Cyngor ar bopeth sy'n cynnig defnydd positif iawn o'r gofod.

Bu'r Castell hefyd yn gartref i lwyfannu amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg mewn partneriaeth gyda CERED a Chymdeithas leol Gŵyl y Cynhaeaf ar Sadwrn Barlys. Roedd digwyddiad 'Bwrlwm Barlys' yn llwyddianus iawn lle cyd-weithiwyd â nifer o Ysgolion lleol oedd yn perfformio caneuon, a bu nifer o weithdai amaethyddol yn ystod y dydd a chyngerdd yn y nos.

Yn haf 2022 gwelwyd dychweliad y digwyddiadau mawr ar y lawnt o flaen y tŷ. Yn 2022 yn ogystal dychwelodd Gŵyl Lleisiau Eraill i'r Castell fel un o'r canolfannau a chynhaliwyd derbyniad yn y pafiliwn gan Mark Drakeford, Prif Wenidog  Llywodraeth Cymru. Yn 2023 perfformiodd Natalie Imbruglia a'r Bootleg Beatles yn denu 1200 a 900 o gynulleidfa . Perfformiodd Côr Cymry Gogledd America yma yn ogystal â'r delynores Catrin Finch. Gwerthwyd cyfanswm o bron i 4000 o docynnau sef y nifer fwyaf o incwm o dicedi ar gyfer ein cyngherddau mor belled.

Ym mis Hydref dychwelodd Lleisiau Eraill eto, a derbyniad y Llywodraeth. Yn ystod y cyfnod cyn hynny defnyddiwd yr offer a'r llwyfan i gynnig digwyddiadau eraill gyda band tysteb ag Oktoberfest. Roedd y digwyddiad ola yma mor boblogaidd bu'n rhaid cynnig ail noson, cymaint oedd y galw am dicedi. Denodd hyn math gwahanol o gynulleidfa i'r Castell.

Gyda thîm pel droed Cymru yn cymhwyso ar gyfer Cwpan y byd am y tro cyntaf ers 1958, gwelwyd bod y garfan wedi tyfu i fod yn sumbol o hunaniaeth Cymreig yc yn benodol fel ffordd o hyrwyddo'r iaith. Cynhaliwyd nosweithiau werthodd allan ar gyfer gwylio'r gemau lle roedd Cymru yn chwarae, gyda sylwebaeth Gymraeg. Cynigwyd yr un gwasanaeth gyda gemau rygbi'r Chwe gwlad yn y gaeaf.

Yn Rhagfyr 2022 cydweithiodd y Castell mewn partneriaeth gyda Theatr y Byd Bach a Wired Wood Ltd i greu 'Ffabl' llwybr llusern yng Ngerddi'r Castell a bu i'r ymwelwyr fwynhau gwledd o oleuadau drwy brynu tocyn. Ni fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn 2023 oherwydd argaeledd Wired Wood ond mi fydd yr orymdaith Lusernnau yn gorymdeithio drwy'r dref gan orffen yn y Castell yn ôl yr arfer.

Mi wnaeth y Castell fod yn gartref i nifer o ddigwyddiadau yr Ŵyl Fawr gan gynwys cynnal y lawns ar y lawnt gyda CICA yn perfformio, y ddarlith flynyddol ar Fap o'r Afon Teifi gan Dr David Thome, a Thalwrn y Beirdd yn y pafiliwn. Roedd hi yn braf iawn gweld adfer y digwyddiadau yma.

O ran y gymuned leol, mae'r Ystafell Ymchwil yn parhau i gynnig gwasanaeth gyda gwybodaeth rhad ac am ddim ar hanesion a chofnodion lleol a lluniau – y mwyafrif wedi eu cyflwyno fel rhodd gan Glen Johnson. Mae hyn yn cyd-fenter ar rhan grwp Hanes teuluol Dyfed, y grwp archif a gwirfoddolwyr wedu eu harwain gan Glen ei hun.

Mae'r Castell hefyd wedi hwyluso cartref dros dro i wasanaeth Cyngor ar Bopeth wedi iddynt gael problemau gyda'i adeilad, er mwyn cynnig gwasanaeth i unigolion.

Bu i Adult Learning Wales gynnig amrywiaeth o gyrsiau nosweithiol neu benwythnos gan gynnwys cwrs archaeoleg, lle bu'r myfyrwyr hynny'n cymryd rhan yn yr archwiliad geo-ffisegol ar y safle. Mae hyn yn enghraifft o elwa wrth i'r nifer o rhyngddeilwyr yn y Castell weithio gyda'i gilydd, a bod eu heffaith o wneud hynny yn arwain at ganlyniadau mwy pell gyrhaeddol.

Ym Mawrth 2023 defnyddiwyd y Castell fel safle i Eisteddfod Gylch, Cylch Aberteifi, Urdd Gobaith Cymru. Roedd hyn yn galluogi plant ysgolion yr ardal i gystadlu er mwyn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir; Ceredigion**.** Cafodd y digwyddiad gefnogaeth frwd gan gynulleidfa fawr, fe gredir taw hon oedd yr Eisteddfod gyntaf i'w chynnal yn y Castell ers y gwreiddiol yn 1176! Digwyddiad gwych wedi ei gefnogi gan rhieni a'r ysgolion lleol.

Hefyd ym Mawrth cynhaliwyd Ffair Wyddoniaeth gyntaf erioed y Castell. Cefnogwyd y digwyddiad gan nifer fawr o deuluoedd lleol.
Darparwyd nifer fawr o'r stondinau yn rhad ac am ddim gan wirfoddolwyr newydd i'r Castell, yn ogystal â chyrff fel Coleg Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth,Prifysgol Caerdydd, Ysgol Bro Preseli a thîm y Castell o wirfoddolwyr. Fe gyfranodd bawb i ddigwyddiad oedd yn fforddiadwy ac yn hwyl addysgol fel profiad derbyniodd groeso gwresog gan amrywiaeth eang o'r gymuned.

I orffen hoffwn ddiolch i wirfoddolwyr y Castell, a'r staff am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod fy nghyfnod yn y Castell, yn ogystal â'r Ymddiriedolwyr sydd wedi cynnig cefnogaeth ffantastig – d'oedd dim ots beth oedd y syniad oedd 'da fi roeddent yn fy nghefnogi os oedd y syniad yn synhwyrol. Yr Ystafell Ddianc, yr Oktoberfest a'r prosiect Geo-ffisegol roeddent yn gefnogol. Mae'r cyfan wedi ychwanegu at y Castell, yn ogystal â'r hyn sydd wedi bodoli o'r blaen ac edrychaf ymlaen yn awr at beth fydd y Cyfarwyddwr newydd yn cyflwyno i'r dyfodol. Diolch enfawr i bawb, a dwi'n edrych ymlaen nawr i fod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth.'

Ymatebodd y Cadeirydd gan nodi eto ar rhan bawb ein diolch ac fe'i groesawodd fel aelod o'r Ymddiriedolaeth, gan nodi ei bod hi yn sicr y byddai yn cyfrannu i'r dyfodol. Holwyd os oedd unrhyw gwestiynnau pellach neu sylwadau. Nid oedd ymateb. Aeth y Cadeirydd ymlaen i wahodd Archwiliwr yr Ymddiriedolaeth o gwmni Ashmole's i gynnig ei adroddiad.

2.2 Cyflwynodd Ian Badham o Ashmoles y cyfrifon blynyddol, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau.

Recordiwyd incwm o £504,000 am y flwyddyn o gymharu â ffigyrau'r flwyddyn flaenorol o £522,000. Y flwyddyn honno oedd diwedd cynffon cefnogaeth yn sgîl Covid, gyda thaliadau grant a ffyrlo.  Heb yr arian Covid mae'r incwm wedi codi flwyddyn ar flwyddyn. O ran gwariant roedd net colled o £40,000 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o £13,000 – ac fe gynhwysir gwerthostyngiad yn y swm hwnnw.

O beidio a chyfri hynny mae'n gadael gweddill o £59,000, wrth gymharu  â'r flwyddyn flaenorol o £86,000. Wrth edrych ar yr elw rydym yn bron yr un sefyllfa a'r blynyddoedd lle cafwyd cefnogaeth yn sgîl Covid. Mae'r fantolen yn dangos bod ein cynilion wrth gefn wedi syrthio ychydig. Mae'r gronfa anghyfyngiedig wedi codi £54,000 gan gymryd y cyfanswm i £1,0034 gynnydd.

Croesawyd cwestiynnau neu sylwadau ond ni chafwyd yr un.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Archwilwr am ei gyfraniad a gofynnwyd i'r aelodau dderbyn y cyfrifon.

2.3 Derbyniwyd a chymeradwywyd Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at Mawrth 2023

**Cynigiwyd gan:** Kevin Taylor
**Eliliwyd gan** Steff Jenkins.
Roedd y 15 aelod oedd yn bresennol yn cytuno gyda hyn.

**3. 0 I ethol neu ail-ethol Ymddiriedolwyr sydd yn ymddeol yn ôl eu tro. Non Davies a Steff Jenkins, ac mae'r ddau yn cynnig eu hunain i'w hail ethol.**

Trosglwyddodd y Cadeirydd y rhan yma o'r cyfarfod i ofalaeth yr Ymddiriedolwr Chris Hewitt, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Gweithgaredd Cyffredinol. Mi arweiniodd Chris Hewitt ar y rhan yma o'r cyfarfod.

3.1 Enwebywyd Non Davies ar gyfer ei hail-ethol.

**Enwebwyd gan:** Steff Jenkins
**Eiliwyd gan:** Glen Johnson.
**Cytunodd y 15 aelod oedd yn bresennol. Nid oedd unrhyw wrthwynebydd i'r cynnig.**

Trosglwyddodd Chris Hewitt y darn nesa o'r cyfarfod yn ôl i'r Cadeirydd.

3.2 Enwebwyd Steff Jenkins ar gefer ei ail-ethol.

**Enwebwyd gan:** Chris Hewitt
**Eiliwyd gan:** Kevin Taylor.
**Cytunodd y 15 aelod oedd yn bresennol. Nid oedd unrhyw wrthwynebydd i'r cynnig**

**4.0 I ail - apwyntio Ashmole & Co fel archwilwyr**

4.1 Cynigiwyd bod Ashmole & Co yn cael eu hapwyntio fel Archwilwyr i'r Ymddiriedolaeth.

**Enwebwyd gan:** Joff Timms
**Eiliwyd gan:** Chris Hewitt
**Cytunodd y 15 aelod oedd yn bresennol. Nid oedd unrhyw wrthwynebydd i'r cynnig**

**5.0 Unrhyw fusnes arall ar ddisgresiwn y Cadeirydd.**
Rhannodd y Cadeirydd gyda'r cyfarfod nad oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth ynghlyn ag unrhyw fusnes arall cyn y cyfarfod. Cynigiodd i'r aelodau i gymryd y cyfle i holi cwestiwn neu godi unrhyw ofidion neu bwnc byddent yn dymuno ei drafod.

5.1 Gofynnodd Glen Johnson a fyddai'r Cyfarwyddwr newydd yn fodlon ystyried gosod aelod penodol o staff fel y pwynt cyswllt ar gyfer gwirfoddolwyr. Rhannodd syniad y dylai'r gwirfoddolwyr gyfarfod fel grwp mawr yn amlach ar gyfer coffi a sgwrs neu ginio. Mi wnaeth y Cadeirydd gydnabod y cais gan nodi pa mor bwysig i'r Castell yw'r gwirfoddolwyr,ac mi fyddai yn pasio'r neges i'r Cyfarwyddwr newydd.

5.3 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod hysbysodd pawb oedd yn bresennol fod y cyfarfod ar ben am 6.15pm.

***DIWEDD***